

Rhif: WG22084



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Rhentu Cartrefi – Contract Enghreifftiol

Dyddiad cyhoeddi: **23 Gorffennaf 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **14 Hydref 2014**



Rhagair

Y llynedd fe gyhoeddais y Papur Gwyn, 'Rhentu Cartrefi: Ffordd Well i Gymru' ac ynddo roedd cynigion i wella rhan bwysig ond cymhleth o'r gyfraith sy'n ymwneud â thai. Y nod sydd gennyf mewn golwg yw sicrhau sylfaen gyfreithiol deg, syml ac effeithiol ar gyfer rhentu cartref; at ddibenion landlordiaid a phobl sy'n rhentu eu cartref, yn awr ac i'r dyfodol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn, cyflwynwyd y cynigion mewn dros ugain o ddigwyddiadau ledled Cymru a chysylltwyd â thros fil o bobl. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Awst 2013.

Yn gyffredinol, yr hyn a welwyd oedd bod mwyafrif llethol, sef 95 y cant o'r rhai a ymatebodd, o blaid newid y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhentu cartref. Cyhoeddwyd crynodeb o'r canfyddiadau ym mis Rhagfyr 2013.

Er mwyn i'r fframwaith cyfreithiol fod yn effeithiol, mae'n rhaid i gontractau rhentu fod yn hawdd eu deall a'u defnyddio, ar gyfer tenantiaid a landlordiaid fel ei gilydd. Mae hyn o gymorth pan gytunir ar y trefniadau rhentu yn y lle cyntaf ac mae'n gymorth i osgoi anghydfod yn nes ymlaen. Mewn gair, os bydd y contract yn glir, bydd cartrefi'n cael eu rhentu'n fwy llwyddiannus.

Mae'r ddogfen hon yn nodi, at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus, pa fath o gontractau y gellid eu cael yn sgil Rhentu Cartrefi, ynghyd ag enghreifftiau o'r math o ganllawiau a ddarperir i helpu pobl.

Hoffwn wybod eich barn am strwythur a dyluniad y dogfennau hyn. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio'n dda i bawb.



Carl Sargeant
Gweinidog Tai ac Adfywio

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru yn gofyn eich barn am y contract enghreifftiol Rhentu Cartrefi a'r canllawiau a ddarperir i helpu pobl. Mae'r ymgynghoriad hwn yn defnyddio'r contract cyfnodol safonol er mwyn dangos sut beth fyddai contract enghreifftiol. Fe ymgynghorir ymhellach ar y contractau enghreifftiol arfaethedig eraill, ar yr amod bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno i'r Bil Rhentu Cartrefi a'i fod yn cael Cydsyniad Brenhinol. Rhoddir ystyriaeth i'ch atebion pan ddatblygir fersiynau terfynol y dogfennau.

Sut i ymateb

Mae eich barn am ddyluniad a ffurf y contract enghreifftiol a'r canllawiau yn bwysig. Mae arnom eisiau clywed gan denantiaid, landlordiaid a mudiadau sy'n gweithio ym maes tai neu rai y mae tai yn berthnasol i'w gwaith. A fyddwch cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau yn Atodiad 1. Gellir cyflwyno sylwadau mewn sawl ffordd:

Ar-lein: <http://wales.gov.uk/consultations/housing-and-regeneration/renting-homes-illustrative-contract/>

E-bost: rentinghomes@wales.gsi.gov.uk

Post: Rhentu Cartrefi,
Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Diogelu data

(Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni)

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras a Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Y Cynigion ar gyfer Rhentu Cartrefi

1. Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn ar Rentu Cartrefi yn seiliedig ar waith trylwyr a gyflawnwyd gan Gomisiwn y Gyfraith. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion a byddant yn gwella'r modd y mae'r holl system dai yn gweithio, fel y gall ddiwallu gwahanol anghenion pobl am dai yn well.
2. Bydd y Bil ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith, sydd i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015, yn sefydlu trefniadau newydd ar gyfer rhentu cartref. Diben y Bil yw disodli'r gyfraith bresennol, sydd yn ddryslyd a chymhleth, er mwyn cael fframwaith cyfreithiol cliriach, symlach, llai cymhleth.

Dau gontract

3. Yn lle'r trefniadau cyfreithiol cymhleth sydd ar waith ar hyn o bryd, mae'r cynigion ar gyfer Rhentu Cartrefi yn canolbwyntio ar ddau fath o gontract, sef:
 - i. "contract diogel" yn seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a roddir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd; a
 - ii. "contract safonol" yn dilyn yr un drefn a'r denantiaeth fyrddaliol sicr a ddefnyddir yn bennaf yn y sector rhentu preifat.
4. Mae gwaith manwl yn cael ei wneud er mwyn drafftio'r Bil, gan ystyried yr ymatebion i'r Papur Gwyn a sylwadau eraill gan randdeiliaid, ond ar yr un pryd mae arnom hefyd eisiau dechrau datblygu'r dogfennau angenrheidiol ar gyfer y contract. Mae hyn yn amodol ar i'r Bil ddod yn Ddeddf, wrth gwrs. Gobeithio y bydd pobl drwy hyn hefyd yn dod i ddeall yn well sut y bydd y trefniadau newydd yn gweithio'n ymarferol.
5. Mae'n bwysig pwysleisio nad ymgynghori ar sut i eirio'r contract yn fanwl a wneir yn awr. Ni fydd y contract ar ei ffurf derfynol nes i'r Cynulliad orffen ystyried y Bil. Yn hytrach, mae arnom eisiau gwybod a yw strwythur a dyluniad cyffredinol y dogfennau contract a'r canllawiau sy'n mynd gyda hwy, yn gwneud synnwyr.

Manteision y contractau newydd

6. Bydd rhentu'n llai cymhleth a bydd contractau rhentu'n gliriach a haws eu deall. Ar hyn o bryd, mae landlordiaid ac asiantau gosod tai yn aml yn drafftio eu contractau eu hunain; o ganlyniad, gall tenantiaid wynebu gwahanol delerau a chontract pur wahanol bob tro y byddant yn mudo. Drwy ddarparu contractau enghreifftiol, bydd ein cynigion yn cynnig sail ar gyfer contractau rhentu symlach, mwy safonol lle bydd y telerau yn gliriach. Bydd hyn yn gymorth i osgoi'r anghytuno a'r anawsterau sy'n codi weithiau rhwng tenantiaid a landlordiaid, a'r costau cyfreithiol posibl pan fydd pobl yn gorfod ceisio datrys anghydfod.

7. Ar hyn o bryd, mae dryswch yn gallu codi hefyd oherwydd ansicrwydd ai o dan drwydded ynteu o dan denantiaeth y mae unigolyn yn meddiannu eiddo. Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn effeithio ar hawliau'r landlord a'r sawl sy'n rhentu'r eiddo. Weithiau bydd landlordiaid yn dweud eu bod yn rhoi trwydded yn hytrach na thenantiaeth oherwydd bod trwydded yn rhoi llai o warchodaeth i feddianwyr. Fodd bynnag, gall hyn fod yn gamarweiniol ar gyfer y meddiannydd gan fod y ffordd y mae'n byw yn yr eiddo yn gallu golygu mai tenantiaeth ydyw, waeth beth y mae'r landlord wedi'i ddweud wrtho. Ond efallai na fyddai hyn yn dod yn glir nes i anghydfod godi gan arwain at fynd i'r llys.
8. O dan y cynigion ar gyfer Rhentu Cartrefi, yr un telerau contractiol fydd i'w cymhwyso ac ni fydd yn gwneud gwahaniaeth ai trwydded ynteu tenantiaeth yw sail gyfreithiol y contract. Gan hynny, bydd telerau'r contract yn gliriach o lawer, ar gyfer y landlord a'r meddiannydd fel ei gilydd. Oherwydd y gall sail gyfreithiol y berthynas fod yn drwydded neu yn denantiaeth, bydd y cytundeb o dan Rhentu Cartrefi yn cael ei alw'n "gontract meddiannaeth" ac fe gyfeirir at yr unigolion sy'n meddiannu'r eiddo fel "deiliaid contract". Sylweddolwn y bydd llawer o bobl yn parhau i ddefnyddio'r termau "tenant" a "tenantiaeth", ond gan mai dogfen gyfreithiol ydyw mae'n bwysig nad yw'r contract Rhentu Cartrefi yn gamarweiniol.
9. Mewn ambell sefyllfa yn unig y bydd yn berthnasol ai tenantiaeth ynteu trwydded yw contract Rhentu Cartrefi. Er enghraifft, yr un fath ag ar hyn o bryd, os bydd landlord yn marw yna bydd hawliau a rhwymedigaethau contractiol y landlord o dan denantiaeth yn trosglwyddo yn unol â chyfreithiau etifeddu arferol, ond o dan drwydded byddai'r contract yn dod i ben.

Contractau Enghreifftiol

10. Er mwyn ei gwneud yn hawdd i landlordiaid a meddianwyr gytuno ar gontract sy'n gweddu i'w sefyllfa ac sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, byddwn yn cyhoeddi contractau enghreifftiol yn seiliedig ar y ddau fath o gontract. Ni fydd y contractau enghreifftiol yn wahanol i'w gilydd heblaw pan fydd y sefyllfaoedd gwahanol yn mynnu hynny. Byddant yn cynnwys:
 - contract diogel landlord cymunedol – i'w ddefnyddio gan gymdeithas dai neu awdurdod lleol;
 - contract tymor penodol safonol – i roi meddiannaeth am nifer penodol o fisoedd neu flynyddoedd;
 - contract cyfnodol safonol – contract ar gyfer meddiannaeth sydd yn mynd o wythnos i wythnos neu o fis i fis, gan ddibynnu ar y cyfnod rhentu; a
 - contract safonol â chymorth – ar gyfer tai â chymorth.

11. Fel ar hyn o bryd, pan ddaw contract tymor penodol safonol i ben a bod y deiliad contract yn dal i feddiannu'r eiddo, bydd contract cyfnodol safonol yn dod i rym yn awtomatig oni chytunir ar dymor penodol pellach.
12. Mae'n ddigon posibl y bydd y contractau enghreifftiol yn hirach na rhai contractau presennol ond y rheswm am hyn yw y byddant yn cynnwys yr holl hawliau a rhwymedigaethau statudol perthnasol. Fodd bynnag, gan na fydd y rhan fwyaf o'r telerau yn amrywio o gontract i gontract, bwriedir sicrhau y gellir rhoi'r contract enghreifftiol i'r tenant mewn dogfen ar wahân. Wedyn byddai'r holl wybodaeth benodol, fel manylion y landlord a'r deiliad y contract, cyfeiriad yr eiddo a'r rhent, yn cael eu rhoi mewn dogfen arall o'r enw 'Materion Allweddol'. Gyda'i gilydd, bydd y ddogfen Materion Allweddol a'r contract enghreifftiol perthnasol yn ffurfio'r contract rhwng y landlord a'r deiliad contract.
13. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, ar strwythur a dyluniad y dogfennau yn unig ac nid ar delerau'r contract, rydym yn defnyddio'r contract cyfnodol safonol fel enghraifft. Mae ychydig yn wahanol i'r enghraifft o gontract a ddatblygwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac a gynhwyswyd yn 'Rhentu Cartrefi: Yr Adroddiad Terfynol' a gyhoeddwyd yn 2006. Mae copi o'r adroddiad hwnnw ar gael yn <http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/rentingbill/?skip=1&lang=cy>, ynghyd â'u fersiynau hwy o'r contract cyfnodol safonol a'r contract diogel.
14. Wrth benderfynu sut i ymdrin â chontractau, rydym wedi rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan Lais Defnyddwyr Cymru yn 'Eu tŷ nhw, eich cartref chi'. Adroddiad oedd hwnnw yn seiliedig ar ymchwil i'r sector rhentu preifat ac mae ar gael yn <http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/rentingbill/?skip=1&lang=cy> Roedd yr argymhellion yn cynnwys nodi'n glir ble roedd y landlord wedi cynnwys unrhyw delerau ychwanegol yn y contract, er enghraifft mewn perthynas â chadw anifeiliaid anwes. O dan ein cynigion ni, gellir ychwanegu telerau o'r fath ond ni chaiff y telerau olygu bod y meddianwyr yn cael llai o warchodaeth statudol. Argymhelliad arall a wnaed oedd y dylid rhoi crynodeb o beth y mae telerau'r contract enghreifftiol yn ei olygu yn ymarferol.
15. Felly, y dogfennau sydd i'w hystyried yn yr ymgynghoriad hwn yw:
 - y ddogfen Materion Allweddol
 - y Contract Enghreifftiol – at ddibenion yr ymgynghoriad hwn, defnyddir y contract tymor penodol safonol;
 - Crynodeb o'r Contract Enghreifftiol – er mwyn egluro cynnwys y contract ond heb fod yn rhan o'r contract o dan y gyfraith; a
 - enghraifft o ganllawiau hawdd eu deall ar gyfer contract meddiannaeth.

Y Ddogfen Materion Allweddol (Atodiad 1)

16. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr wybodaeth sy'n benodol i'r sefyllfa dan sylw, megis manylion am y landlord a'r deiliad contract, cyfeiriad yr eiddo a'r rhent sy'n daladwy. Rhoddir lle hefyd ar gyfer unrhyw delerau ychwanegol sy'n berthnasol i'r contract. Yn y ddogfen mae lle yn ogystal i'r landlord roi rhif ei drwydded, y bydd yn ei gael o dan y gofynion ar gyfer cofrestru a thrwyddedu eiddo ar rent, a ddaw i rym o dan Ran 1 Bil Tai (Cymru).
17. Mae'n well gan rai pobl gael copiâu electronig o ddogfennau yn lle copiâu papur y dyddiau hyn. Felly bydd y ddogfen Materion Allweddol hefyd yn cynnwys blwch i'r deiliad contract ei dicio os yw'n hapus i dderbyn y contract a'r ddogfennaeth berthnasol trwy ddull electronig. Credwn y gall fod yn gyfleus i'r landlord a'r deiliad contract gyfathrebu'n electronig hefyd trwy gydol oes y contract. Er enghraifft, gall y deiliad contract anfon e-byst at y landlord i ofyn iddo wneud gwaith atgyweirio. Hoffem wybod a ydych yn cytuno â'r cynnig hwn.

Y Contract Enghreifftiol (Atodiad 2)

18. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, rydym yn defnyddio'r contract cyfnodol safonol fel enghraifft i ddangos sut y bydd y contractau enghreifftiol yn edrych. Fel y dywedwyd uchod, rydym yn sylweddoli ei fod, mae'n debyg, yn hwy na llawer o gontractau a ddefnyddir ar hyn o bryd, ond y rheswm am hyn yw ei fod yn cynnwys yr holl hawliau a chyfrifoldebau perthnasol, nad yw rhai ohonynt efallai yn cael eu cynnwys mewn contractau yn awr.
19. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y telerau contractiol yn cael eu geirio fel eu bod yn ddealladwy ond, gan fod angen i'r contract fodloni'r gofynion ar gyfer dogfen sydd yn rhwymo mewn cyfraith, bydd yn fuddiol cynnwys rhywfaint o eglurhad ychwanegol. Dyna pam rydym yn credu y dylid sicrhau bod crynodeb o ddogfen y contract enghreifftiol ar gael, ynghyd â chanllawiau hawdd eu deall (gweler isod). Gan gadw hynny mewn cof, byddem yn dal i groesawu sylwadau ar ddyluniad a fformat cyffredinol y contract enghreifftiol; er enghraifft, y blychau gwybodaeth ar y dudalen flaen, y ffordd y mae telerau'r contract wedi'u gosod allan ar y tudalennau nesaf, arddull a maint y testun ar gyfer y penawdau a'r telerau, a'r defnydd o flychau testun a lliwiau.
20. Er mwyn i'r trefniadau newydd weithio mor effeithiol ag sy'n bosibl, sylweddolwn y bydd angen i'r contractau enghreifftiol fod ar gael yn rhwydd. Gan hynny, hoffem wybod pa un o blith y ffyrdd posibl y gall deiliad contract neu landlord gael copi o'r contract fyddai fwyaf buddiol.
21. Bydd ar landlordiaid, deiliaid contractau ac eraill angen cael gafael yn rhwydd ar wybodaeth a chyngor ynghylch y contractau – er enghraifft, er mwyn deall yn well beth yw ystyr un o'r telerau yn y contract. Hoffem wybod pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai'r gwahanol ffyrdd posibl o gael gwybodaeth a chyngor o'r fath.

22. Mae'r contract enghreifftiol yn cynnwys telerau contractiol o dri math: telerau sylfaenol y mae'n rhaid eu rhoi ym mhob contract, megis y teler ymddygiad gwaharddedig; telerau sylfaenol y gellir eu hepgor ond dim ond os yw hynny o fudd i'r deiliad contract; a thelerau atodol, y gellir eu hepgor neu eu newid. Hoffem wybod pa mor dda yn eich barn chi y mae pob un o'r symbolau hyn yn dangos statws y telerau contractiol:



telerau sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid



telerau sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch na'r hyn y mae gan y deiliad contract hawl iddo yn ôl y gyfraith



telerau atodol y gellir ei hepgor o'r contract neu ei newid

Crynodeb o'r Contract Enghreifftiol (Atodiad 3)

23. Bwriedir i'r Crynodeb o'r Contract Enghreifftiol roi i landlordiaid a deiliaid contractau eglurhad, heb fod mewn iaith gyfreithiol, o'r hyn y mae gwahanol rannau'r contract yn ei olygu yn ymarferol. Dylai fod o gymorth er mwyn gweld pa ran o'r contract sy'n debygol o fod yn berthnasol i ymholiad penodol, ac er mwyn deall y rhan honno. Hoffem wybod a ydych o'r farn y byddai crynodeb o'r fath yn fuddiol.

Enghraifft o ganllawiau hawdd eu deall (Atodiad 4)

24. Yn ogystal â'r Crynodeb o'r Contract Enghreifftiol, credwn y byddai'n fuddiol darparu canllawiau hawdd eu deall i'r contract Rhentu Cartrefi. I'ch helpu i ddeall sut fath o ganllawiau fyddai'r rhain, rydym wedi darparu enghraifft (a grëwyd gan Housing Solutions, cymdeithas dai o Loegr). Dyma enghraifft dda yn ein barn ni o ddogfen hawdd ei deall a dyna'r math o beth y bwriadwn ei ddarparu ar gyfer Rhentu Cartrefi. Hoffem wybod a ydych o'r farn y byddai hyn yn fuddiol a byddem yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau eraill sydd gennych.
25. Yn olaf, hoffem wybod a oes unrhyw faterion eraill y credwch ei bod yn bwysig i ni roi sylw iddynt fel y gall y trefniadau contractiol newydd o dan Rhentu Cartrefi weithio mor effeithiol ag sy'n bosibl. Hoffem glywed hefyd os oes gennych unrhyw sylwadau eraill.
26. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig eich ymateb i'r cwestiynau yn Atodiad 1.

Atodiad 1: Rhestr o'r cwestiynau ar gyfer ymgynghori

Byddai Llywodraeth Cymru'n falch o glywed eich barn. Mae arnom eisiau i'r contractau newydd fod yn hawdd i bobl eu defnyddio ac egluro'n well i landlordiaid a thenantiaid beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae eich atebion i'r cwestiynau isod o ddiddordeb arbennig i ni ond rydym yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar yr ymgynghoriad.

Enw:						
Mudiad (os yw'n berthnasol)						
Cyfeiriad e-bost:						
Rhif ffôn:						
Cyfeiriad:						
Ticiwch os gwelwch yn dda i ddangos a ydych yn:	Denant:		Landlord:		Arall (rhowch fanylion):	
Cwestiwn 1 – Y ddogfen Materion Allweddol					Ticiwch os gwelwch yn dda	
A yw'r ddogfen 'Materion Allweddol' wedi'i gosod allan yn glir ac a yw'n hawdd ei deall?					Ydyw	Nac ydyw
Cwestiwn 2 – Contractau electronig					Ticiwch os gwelwch yn dda	
Ar yr amod fod y tenant yn cytuno ymlaen llaw, a ydych o blaid sicrhau bod y contract ac unrhyw rybuddion angenrheidiol yn gallu cael eu rhoi trwy ddull electronig?					Ydw	Nac ydw
Os nad ydych, eglurwch eich ateb yn fyr os gwelwch yn dda.						
Cwestiwn 3- Copi o'r contract			Ticiwch os gwelwch yn dda			
Pa mor ddefnyddiol i chi fyddai'r ffyrdd hyn o gael copi o'r contract enghreifftiol?			Defnyddiol iawn	Eithaf defnyddiol	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
• Lawrlwytho copi o'r wefan						
• Copi electronig ar DVD						
• Copi wedi'i argraffu ar bapur						
• Arall – rhowch fanylion:						

Cwestiwn 4 – Gwybodaeth a chyngor am y contract.		Ticiwch os gwelwch yn dda				
Pa mor ddefnyddiol i chi fyddai'r ffyrdd hyn o gael gwybodaeth a chyngor am y contract?	Defnyddiol iawn	Eithaf defnyddiol	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl		
• Gwefan gan ddefnyddio cyfrifiadur						
• Gwefan gan ddefnyddio ffôn clyfar						
• DVD						
• Canllawiau ar bapur; llyfrynau						
• Ffôn						
• Wyneb yn wyneb, e.e. Cyngor ar Bopeth / Shelter Cymru						
• Arall – rhowch fanylion:						
Cwestiwn 5 – Fformat y Contract Enghreifftiol				Ticiwch os gwelwch yn dda		
A yw dyluniad a fformat y Contract Enghreifftiol yn hawdd ei ddeall?				Ydyw	Nac ydyw	
Os nad ydyw, eglurwch eich ateb yn fyr os gwelwch yn dda.						
Cwestiwn 6- Symbolau'r Contract Enghreifftiol			Ticiwch os gwelwch yn dda			
Pa mor dda y mae pob symbol yn dangos statws telerau'r contract?			Yn dda iawn	Yn eithaf da	Ddim yn dda iawn	Ddim yn dda o gwbl
	telor sylfaenol nad oes modd ei hepgor o'r contract na'i newid					
	telor sylfaenol y gellir ei hepgor o'r contract hwn neu ei newid, ond dim ond os yw hynny'n rhoi gwarchodaeth uwch na'r hyn y mae gan y deiliad contract hawl iddo yn ôl y gyfraith					
	telor atodol y gellir ei hepgor o'r contract neu ei newid					
Cwestiwn 7 – Crynodeb y Contract Enghreifftiol				Ticiwch os gwelwch yn dda		
A yw Crynodeb y Contract Enghreifftiol yn fuddiol o safbwynt egluro beth y mae adrannau'r contract yn ei olygu yn ymarferol?				Ydyw	Nac ydyw	

Os nad ydyw, eglurwch eich ateb yn fyr os gwelwch yn dda.		
Cwestiwn 8 – Canllawiau Hawdd eu Deall		Ticiwch os gwelwch yn dda
A yw'n fuddiol darparu canllawiau fel yr enghraifft yn Atodiad 4, "Canllawiau hawdd eu deall i'ch Cytundeb Tenantiaeth", i helpu pobl i ddeall y contract?	Ydyw	Nac ydyw
Os nad ydyw, eglurwch eich ateb yn fyr os gwelwch yn dda.		
Cwestiwn 9		
Yn eich barn chi, beth yw'r peth pwysicaf er mwyn helpu landlordiaid a thenantiaid i ddefnyddio a deall y contract?		
Ateb:		
Cewch roi unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod.		
Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐		
Os ydych yn ymateb ar ran eich mudiad, ticiwch y blwch:		
Os ydych yn fodlon inni gysylltu â chi mewn perthynas â datblygiad y Bil Rhentu Cartrefi, ticiwch y blwch:		